# Bwrdd Swyddfa Archwilio Cymru
## Cofnodion y cyfarfod ddydd Iau 26 Mehefin 2025
## Cynhaliwyd yn swyddfa Caerdydd Swyddfa Archwilio Cymru a dros Teams

| | |
|---|---|
| **Aelodau:** | |
| Ian Rees | Aelod anweithredol a Chadeirydd y Bwrdd |
| David Francis | Aelod anweithredol ac Uwch-gyfarwyddwr Annibynnol (SID) |
| Adrian Crompton | Prif Weithredwr ac Archwilydd Cyffredinol Cymru (dros Teams) |
| Alison Gerrard | Aelod anweithredol a Chadeirydd y Pwyllgor Cydnabyddiaeth Ariannol ac Adnoddau Dynol |
| Anne Beegan | Aelod cyflogai etholedig |
| Chris Bolton | Aelod cyflogai etholedig |
| Darren Griffiths | Aelod cyflogai penodedig (dros Teams) |
| Michael Norman | Aelod anweithredol |
| Richard Thurston | Aelod anweithredol |
| **Yn bresennol:** | |
| Anne-Louise Clark | Cyfarwyddwr Gweithredu Cyfathrebu a Newid (EDCC) |
| Ann-Marie Harkin | Cyfarwyddwr Gweithredol Gwasanaethau Archwilio (EDAS) |
| Derwyn Owen | Cyfarwyddwr Archwilio a Darpar Gyfarwyddwr Gweithredol Moderneiddio ac Effaith Archwiliadau (EDAMI) |
| Kevin Thomas | Cyfarwyddwr Gweithredol Gwasanaethau Corfforaethol (EDCS) |
| Katherine Drysdale | Ysgrifennydd y Bwrdd (cofnodion) |
| Owen Purcell | Aelod Annibynnol o’r Pwyllgor Archwilio a Sicrwydd Risg |
| Matthew Hockridge | Pennaeth Cynllunio ac Adrodd (eitemau 7 i 9) |
| Nicola Evans | Pennaeth Cyllid (eitemau 7 i 9) |
| Gareth Phillips | Pennaeth Cyfathrebu (eitem 12) |
| Terry Jones | Rheolwr Datblygu a Chanllawiau Archwilio, Ansawdd a Pholisi (eitem 13) |
| **Arsylwyr:** | |
| Sara-Jane Byrne | Rheolwr Archwilio (eitemau 1 i 11) |
| Carwyn Rees | Rheolwr Archwilio (eitemau 1 i 11) |
| Bethan Jones | Darpar Aelod Anweithredol (dros Teams) |

| Eitem | Agenda |
|---|---|
| 1 | Croeso ac ymddiheuriadau |
| 2 | Datganiadau o fuddiant |
| 3 | Adolygiad o gofnodion cyfarfodydd: 12 a 13 Chwefror 2025; 20 Mawrth 2025 |
| 4 | Adolygiad o waith tracio camau gweithredu |
| 5 | Adroddiad y Cadeirydd, gan gynnwys Penodiadau Pwyllgor |
| 6 | Adroddiad y Prif Weithredwr a’r Archwilydd Cyffredinol |
| 7 | Y Pwyllgor Archwilio a Sicrwydd Risg: adroddiad o gyfarfod 25 Mehefin 2025 ac adroddiad blynyddol i’r Bwrdd |
| 8 | Adroddiad blynyddol a chyfrifon 2024-25 |
| 9 | Adroddiad Perfformiad Integredig (unrhyw faterion na gwmpesir gan yr Adroddiad Blynyddol a Chyfrifon) |

**Bwrdd Swyddfa Archwilio Cymru**
**Cofnodion y cyfarfod ddydd Iau 26 Mehefin 2025**
**Cynhaliwyd yn swyddfa Caerdydd Swyddfa Archwilio Cymru a dros Teams**

| Eitem | Agenda |
|---|---|
| 10 | Y Pwyllgor Cydnabyddiaeth Ariannol ac Adnoddau Dynol: adroddiad o gyfarfod 01 Mai 2025 ac adroddiad blynyddol i'r Bwrdd |
| 11 | Adroddiad Blynyddol Rheoli Amser ac Adnoddau |
| 12 | Strategaeth Gyfathrebu |
| 13 | Gorwelion Archwilio |
| 14 | Adolygiad o'r flaenraglen waith |
| 15 | Unrhyw faterion eraill |
| 16 | Adolygiad o'r cyfarfod |
| 17 | Dyddiad y cyfarfod nesaf: cyfarfod y Bwrdd – 30 a 31 Gorffennaf 2025 a chyfarfod y Bwrdd gydag Undebau Llafur – 31 Gorffennaf 2025 |

| Eitem | Cofnodion | Cam Gweithredu |
|---|---|---|
| **Eitemau Sefydlog** | | |
| **1** | **Croeso'r Cadeirydd ac ymddiheuriadau am absenoldeb** | |
| 1.1 | Croesawodd y Cadeirydd aelodau a'r rhai a oedd yn bresennol. Nid oedd unrhyw ymddiheuriadau am absenoldeb. | |
| **2** | **Datganiadau o fuddiant** | |
| 2.1 | Fe wnaeth Derwyn Owen ddatgan buddiant yn Adroddiad y Cadeirydd o'r safbwynt ei fod yn ymdrin â chadarnhad ei benodiad fel Darpar Gyfarwyddwr Gweithredol Moderneiddio ac Effaith Archwiliadau (EDAMI). Byddai'n gadael y cyfarfod ar gyfer y mater hwnnw. | |
| **3** | **Adolygiad o gofnodion cyfarfodydd** | |
| 3.1 | Cymeradwyodd y Bwrdd gofnodion ei gyfarfod ar 12 a 13 Chwefror 2025 fel cofnod cywir. | |
| 3.2 | Cymeradwyodd y Bwrdd gofnodion ei gyfarfod ar 20 Mawrth 2025 fel cofnod cywir. | |
| **4** | **Adolygiad o waith tracio camau gweithredu** | |
| 4.1 | Derbyniodd y Bwrdd wybodaeth ddiweddaraf am gyflawniad o ran camau gweithredu draciwr camau gweithredu'r Bwrdd. | |
| **5** | **Adroddiad y Cadeirydd a Phenodiadau Pwyllgor** | |
| 5.1 | Rhoddodd y Cadeirydd yr wybodaeth ddiweddaraf am ei weithgarwch ers y cyfarfod diwethaf. Gwahoddodd yr archwilydd Cyffredinol i ymateb i adborth y Bwrdd ar y sioeau teithiol staff arweinyddiaeth uwch diweddar ar amlder ac amseriad sioeau teithiol yn y dyfodol, lefel gynrychiolaeth y Bwrdd a fformat ar gyfer cyfranogiad staff. Nododd yr Archwilydd Cyffredinol:<br>• ei fod yn cynllunio dwy rownd arall sioeau teithiol yn ystod ei gyfnod yn y swydd – yn ystod hydref 2025 a gwanwyn 2026; | |

**Bwrdd Swyddfa Archwilio Cymru**
**Cofnodion y cyfarfod ddydd Iau 26 Mehefin 2025**
**Cynhaliwyd yn swyddfa Caerdydd Swyddfa Archwilio Cymru a dros Teams**

| Eitem | Cofnodion | Cam Gweithredu |
|---|---|---|
| | • nad oedd cynlluniau ar gyfer cynhadledd yn 2026 wedi cael eu hystyried eto, ond roedd dilyn cynhadledd 2025 gyda sioe deithiol wedi helpu i atgyfnerthu'r negeseuon a rannwyd;<br>• ei fod yn croesawu cynrychiolaeth aelodau'r Bwrdd, ac yn awyddus i aelod anweithredol fod yn bresennol ym mhob sioe deithiol; ac<br>• ei fod yn bwriadu ymgorffori cyfranogiad staff yn sioeau teithiol y dyfodol, er y gallai'r fformat amrywio yn dibynnu ar lefel y presenoldeb mewn sesiynau unigol. | |
| 5.2 | Cynigodd y Cadeirydd newidiadau i Gadeirio ac aelodaeth y Pwyllgor Cydnabyddiaeth Ariannol ac Adnoddau Dynol ar ôl ymadawiad Alison Gerrard. Cynigodd gadw cyfansoddiad presennol y Pwyllgor Archwilio a Sicrwydd Risg a nododd y byddai'n adolygu cyfansoddiad Pwyllgorau'r Bwrdd ymhellach yn 2026 ar ôl i ail dymor penodiad Anne Beegan fel aelod cyflogai etholedig ddod i ben. | |
| 5.3 | Fe wnaeth y Bwrdd:<br>• gymeradwyo penodiad Richard Thurston fel Cadeirydd y Pwyllgor Cydnabyddiaeth Ariannol ac Adnoddau Dynol;<br>• cymeradwyo penodiad Bethan Jones i'r Pwyllgor Cydnabyddiaeth Ariannol ac Adnoddau Dynol; a<br>• chadarnhau fel arall gyfansoddiad y Pwyllgor Cydnabyddiaeth Ariannol ac Adnoddau Dynol a'r Pwyllgor Archwilio a Sicrwydd Risg. | |
| 5.4 | Gadawodd Derwyn Owen y cyfarfod. | |
| 5.5 | Yn unol â Chylch Gorchwyl y Bwrdd, cadarnhaodd y Bwrdd gymeradwyaeth i bob pwrpas i benodiad Derwyn Owen fel y Cyfarwyddwr Gweithredol Moderneiddio ac Effaith Archwiliadau am 18 mis o 01 Awst 2025. | |
| 5.6 | Ailymunodd Derwyn Owen â'r cyfarfod | |
| 5.7 | Yn unol â Chylch Gorchwyl y Bwrdd, cadarnhaodd y Bwrdd gymeradwyaeth i bob pwrpas i gynnwys Cyfrifon 2024 Llywodraeth Anguilla yn yr estyniad i'r contract gwreiddiol a gymeradwywyd gan y Bwrdd ym mis Mawrth 2025. Nododd y Bwrdd y byddai'r ffi ar gyfer Cyfrifon 2024 yn talu'r costau o gyflawni'r archwiliad, â chyfraniad o 30% at orbenion. | |
| **6** | **Adroddiad y Prif Weithredwr a'r Archwilydd Cyffredinol** | |
| 6.1 | Cyflwynodd yr Archwilydd Cyffredinol a'r Prif Weithredwr ei ddiweddariad ac amlygodd:<br>• y gwaith sy'n deillio o'i adroddiad ar Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol, a oedd yn cynnwys rhoi tystiolaeth i ymchwiliad Pwyllgor Cydraddoldeb a Chyfiawnder Cymdeithasol y Senedd ar graffu ôl-ddeddfwriaethol ar y Ddeddf; a<br>• chanlyniadau adborth rhanddeiliaid a gasglwyd yn annibynnol, ac er bod hwn yn gadarnhaol yn gyffredinol, nid oedd hyn wedi'i adlewyrchu | |

**Bwrdd Swyddfa Archwilio Cymru**
**Cofnodion y cyfarfod ddydd Iau 26 Mehefin 2025**
**Cynhaliwyd yn swyddfa Caerdydd Swyddfa Archwilio Cymru a dros Teams**

| Eitem | Cofnodion | Cam Gweithredu |
|---|---|---|
| | yn Nangosyddion Perfformiad Allweddol perthnasol y cynllun blynyddol, wrth i ddau fethu â chyrraedd y targed. Esboniodd y gofynnwyd am adborth wedi'i dargedu pellach gan gyrff GIG lle cafwyd cyfradd ymateb isel a sgoriau isel ac roedd yr adborth ychwanegol hwn yn fwy cadarnhaol. Esboniodd er bod y Tîm Arweinyddiaeth Gweithredol yn cydnabod gwerth adborth a gesglir yn annibynnol, ei fod yn adolygu ei ddull o gasglu adborth gyda'r bwriad o wella dibynadwyedd y canlyniadau. | |
| 6.2 | Trafododd y Bwrdd ganlyniadau'r adborth gan randdeiliaid gan:<br>• annog rheolwyr i gynnal dull annibynnol a oedd yn cynnig cyfle i gyrff sy'n cael eu harchwilio gynnig adborth gonest a hyder yn y canlyniadau; ac<br>• awgrymu y dylai rheolwyr ystyried sut y gallent ddangos y defnydd o'r adborth a gasglwyd, i ysbrydoli ymddiriedaeth mewn corff sy'n cael eu harchwilio ac i ddangos i'r Bwrdd sut roedd y data yn cael eu defnyddio i gefnogi gwelliannau.<br>Esboniodd y Prif Weithredwr er ei fod wedi ysgrifennu at ymatebwyr i ymarferion blaenorol, bod dangos cysylltiad uniongyrchol rhwng yr adborth a gwelliant cyffredinol yn llai syml pan roedd adborth yn gyffredinol ei natur. Cadarnhaodd ei fod yn awyddus i gynnal dull annibynnol, tra'n manteisio ar gysylltiadau i gael cyfranogiad cryfach. | |
| 6.3 | Nodwyd y diweddariad gan y Bwrdd. | |
| **7** | **Adroddiad gan Gadeirydd y Pwyllgor Archwilio a Sicrwydd Risg: cyfarfod mis Gorffennaf a'r Adroddiad Blynyddol** | |
| 7.1 | Cyflwynodd Cadeirydd y Pwyllgor Archwilio a Sicrwydd Risg ei adroddiad o gyfarfod y Pwyllgor ar 25 Mehefin 2025 a ystyriodd:<br>• yr adroddiad annibyniaeth blynyddol;<br>• y diweddariad blynyddol ar gaffael, gan gynnwys rhagolwg o weithgarwch a ragwelir dros y ddwy flynedd nesaf;<br>• yr adroddiad llywodraethu gwybodaeth blynyddol, a roddodd sicrwydd bod risgiau yn cael eu rheoli'n dda mewn amgylchedd technolegol sy'n newid yn gyflym;<br>• polisi Deallusrwydd Artiffisial a Mentrau Digidol diwygiedig, a oedd yn nodi'r rheolaethau ar gyfer defnyddio deallusrwydd artiffisial a'r trefniadau llywodraethu ar gyfer datblygu mentrau newydd;<br>• rheoli risg, gan gynnwys cynnig ar gyfer dull mwy strwythuredig i ymchwiliadau trwyadl i risgiau i gyd-fynd â'r gofrestr risg strategol; ac<br>• adroddiadau archwilio mewnol, a dderbyniwyd ac eithrio'r adroddiad ar reoli perfformiad a fyddai'n cael ei gynrychioli i'r Pwyllgor ym mis Medi dyn dilyn adolygiad a thrafodaeth gyda'r EDCS. | |
| 7.2 | Mewn ymateb i gwestiwn am ba un a allai cyfyngu ymchwiliadau trwyadl i'r gofrestr risg atal y Pwyllgor rhag cyflawni ei swyddogaeth ehangach ac | |

**Bwrdd Swyddfa Archwilio Cymru**
**Cofnodion y cyfarfod ddydd Iau 26 Mehefin 2025**
**Cynhaliwyd yn swyddfa Caerdydd Swyddfa Archwilio Cymru a dros Teams**

| Eitem | Cofnodion | Cam Gweithredu |
|---|---|---|
| | archwilio pynciau sy'n dod i'r amlwg, esboniodd Cadeirydd y Pwyllgor y byddai'r Pwyllgor yn parhau i archwilio pynciau eraill sy'n berthnasol i'w gylch gwaith, ond y gellid gwneud hyn mewn gwahanol ffyrdd i'r ymchwiliadau trwyadl i risg strategol. | |
| 7.3 | Ar sail argymhelliad y Pwyllgor, cymeradwyodd y Bwrdd y Polisi Deallusrwydd Artiffisial a Mentrau Digidol. | |
| 7.4 | Cadarnhaodd Cadeirydd y Pwyllgor Archwilio a Sicrwydd Risg bod y Pwyllgor hefyd wedi ystyried yr Adroddiad Blynyddol a'r Cyfrifon ac Adroddiad Blynyddol y Pwyllgor, gan gynnwys ei hunanasesiad effeithiolrwydd a'r asesiad yn erbyn y Cod Arferion Da ar gyfer Llywodraethu Corfforaethol mewn Llywodraeth Ganolog. | |
| 7.5 | Rhoddodd Cadeirydd y Pwyllgor Archwilio a Sicrwydd Risg grynodeb o drafodaeth y Pwyllgor ar yr Adroddiad Blynyddol a Chyfrifon drafft, gan gynnwys y sicrwydd atodol gan y Penaethiaid Archwilio Mewnol ac Allanol. | |
| 7.6 | Cadarnhaodd bod y Pwyllgor yn fodlon i argymell y dylai'r Bwrdd:<br>• nodi natur gynhwysfawr y sicrwydd a dderbyniwyd ar yr adroddiad blynyddol a'r cyfrifon; ac<br>• argymell i'r Swyddog Cyfrifyddu y dylai lofnodi'r adroddiad blynyddol a'r cyfrifon ar gyfer 2024-25 a'r llythyr sylwadau. | |
| 7.7 | Nodwyd argymhellion y Pwyllgor gan y Bwrdd. | |
| 7.8 | Cymeradwyodd y Bwrdd:<br>• adroddiad blynyddol y Pwyllgor ar gyfer 2024-25; a'r<br>• asesiad o gydymffurfiad â'r Cod Arferion da ar gyfer Llywodraethu Corfforaethol mewn Llywodraeth Ganolog. | |
| **8** | **Adroddiad blynyddol a chyfrifon 2024-25** | |
| 8.1 | Cyflwynodd y Pennaeth Cyllid ddrafft terfynol yr Adroddiad Blynyddol a'r Cyfrifon a chadarnhaodd yr amserlen ar gyfer eu llofnodi a'u gosod. | |
| 8.2 | Trafododd y Bwrdd y datganiadau ariannol, gan fynegi pryder:<br>• bod y gwarged wedi cynyddu dros y flwyddyn ag amrywiadau sylweddol yn erbyn y gyllideb; a<br>• bod cyfleoedd i ddefnyddio cyllidebau a danwariwyd wedi cael eu methu i bob pwrpas.<br>Esboniodd y Pennaeth Cyllid er bod opsiynau ar gyfer buddsoddi wedi cael eu hystyried, ni fu'n bosibl prosesu'r rheini yn ystod y flwyddyn. | |
| 8.3 | Gofynnodd y Bwrdd am sicrwydd y byddai camau yn cael eu cymryd i fynd i'r afael â'r materion a godwyd ac amlinellodd y Prif Weithredwr y camau sy'n cael eu cymryd i ddatblygu dull gwell o ran cynllunio a throsolwg ariannol. | |
| 8.4 | Amlinellodd y Pennaeth Cynllunio ac Adrodd y broses ar gyfer datblygu'r adroddiad blynyddol gan gydnabod y cyfraniadau cynorthwyol gan y Tîm Cyfarwyddwyr a'r aelod annibynnol o'r Pwyllgor Archwilio a Sicrwydd Risg. | |

**Bwrdd Swyddfa Archwilio Cymru**
**Cofnodion y cyfarfod ddydd Iau 26 Mehefin 2025**
**Cynhaliwyd yn swyddfa Caerdydd Swyddfa Archwilio Cymru a dros Teams**

| Eitem | Cofnodion | Cam Gweithredu |
|---|---|---|
| | Esboniodd y byddai mân newidiadau i'r adroddiad i adlewyrchu canlyniad trafodaethau yng nghyfarfod y Pwyllgor Archwilio a Sicrwydd Risg y diwrnod cynt. | |
| 8.5 | Trafododd y Bwrdd yn gryno werth yr astudiaethau achos gan annog rheolwyr i ystyried sut y gallai ddatblygu fersiynau o'r adroddiad yn y dyfodol i adlewyrchu ymhellach effaith gwaith yr Archwilydd Cyffredinol. | |
| 8.6 | Ar sail y sicrwydd a dderbyniwyd, fe wnaeth y Bwrdd:<br>• gymeradwyo'r Adroddiad Blynyddol a'r Cyfrifon sy'n agos at fod yn derfynol ar gyfer 2024-25;<br>• awdurdodi'r Cadeirydd a'r Archwilydd Cyffredinol i gymeradwyo a llofnodi'r ddogfen derfynol; ac<br>• argymell y dylai'r Swyddog Cyfrifyddu lofnodi'r Adroddiad Blynyddol a Chyfrifon ar gyfer 2024-25 a'r llythyr sylwadau. | Cadeirydd/ Archwilydd Cyffredinol Cymru<br><br>Archwilydd Cyffredinol Cymru |
| 8.7 | Cofnododd y Bwrdd ei ddiolch i'r rhai a gymerodd ran yn y gwaith o baratoi ac archwilio'r adroddiad blynyddol a'r cyfrifon. | |
| **9** | **Adroddiad Perfformiad Integredig** | |
| 9.1 | Cyflwynodd yr EDCC yr adroddiad perfformiad integredig y bwriadwyd iddo ategu'r wybodaeth diwedd blwyddyn a adroddwyd yn yr Adroddiad Blynyddol a'r Cyfrifon, â diweddariadau ar gyflawni archwiliadau, y sefyllfa ariannol, data gweithlu a darparu strategaethau gan gynnwys perfformiad yn erbyn targedau Dangosyddion Perfformiad Allweddol. | |
| 9.2 | Trafododd y Bwrdd gyflawniad archwiliadau ac adnoddau gan nodi bod rhyw fymryn o lithriant yn yr amserlen ar gyfer cyflawni'r ôl-groniad. Esboniodd yr EDAS bod cynnydd yn cael ei wneud ond bod cyflawniad o ran archwilio perfformiad yn cael ei effeithio gan swyddi gwag, a bod cyrraedd y targed ar gyfer archwilio ariannol yn ddibynnol ar cyrff sy'n cael eu harchwilio yn darparu cyfrifon yn brydlon. Esboniodd bod dull rhagofalus yn cael ei fabwysiadu o ran recriwtio oherwydd y potensial ar gyfer gwared adnoddau ar yr adeg y caiff yr ôl-groniad ei glirio. Esboniodd yr EDAS hefyd bod cyfraddau gadael wedi lleihau ac er bod rhywfaint o hyblygrwydd ar gyfer symud staff rhwng archwiliadau ariannol a pherfformiad, roedd hyn yn gyfyngedig. Trafododd y Bwrdd yr opsiwn o ddiwygio'r amserlen gyflawni i liniaru'r risg o warged adnoddau, ond nododd bod yn well gan reolwyr gadw'r targedau a osodwyd i gynnal momentwm a phwyslais. | |
| 9.3 | Trafododd y Bwrdd y diweddariad ariannol yn gryno, gan nodi y byddai data mwy dibynadwy ar gael ar ddiwedd chwarter un. Ail-gadarnhaodd y | |

**Bwrdd Swyddfa Archwilio Cymru**
**Cofnodion y cyfarfod ddydd Iau 26 Mehefin 2025**
**Cynhaliwyd yn swyddfa Caerdydd Swyddfa Archwilio Cymru a dros Teams**

| Eitem | Cofnodion | Cam Gweithredu |
|---|---|---|
| | Bwrdd y dylai Adroddiad Perfformiad Integredig gael ei gyflwyno i'r Bwrdd bob tri mis i sicrhau data ystyrlon a chadarn. | |
| 9.4 | Nodwyd yr adroddiad gan y Bwrdd. | |
| **10** | **Adroddiad gan Gadeirydd y Pwyllgor Cydnabyddiaeth Ariannol ac Adnoddau Dynol: cyfarfod mis Mai a'r Adroddiad Blynyddol** | |
| 10.1 | Cyflwynodd Cadeirydd y Pwyllgor Cydnabyddiaeth Ariannol ac Adnoddau Dynol ei hadroddiad o gyfarfod y Pwyllgor ar 01 Mai 2025. Amlygodd:<br>• y bu rhywfaint o lithriant o ran cyflawni blaenoriaethau blwyddyn un y Cynllun Gweithlu Strategol a fyddai'n cael eu datblygu yn ail flwyddyn y cynllun, a byddai monitro darpariaeth y Cynllun Gweithlu Strategol yn faes o bwyslais i'r Pwyllgor;<br>• bod y Pwyllgor wedi ystyried a chefnogi Polisi Urddas a Pharch diwygiedig; a<br>• bod y Pwyllgor wedi blaenoriaethu ei drosolwg a'i graffu ar brosesau rheoli perfformiad dros y blynyddoedd diwethaf, gan gynnwys pennu amcanion a chynnal sgyrsiau gwerthuso, gan arwain at ddatblygu modiwl rheoli perfformiad a fyddai bellach yn cael ei gyflwyno dros yr haf.<br>Gofynnodd y Bwrdd i'r Pwyllgor Cydnabyddiaeth Ariannol ac Adnoddau Dynol barhau i fonitro rheolaeth perfformiad i sicrhau gweithrediad effeithiol y system newydd a mabwysiadu'r dull newydd. | Cadeirydd y Pwyllgor Cydnabyddiaeth Ariannol ac Adnoddau Dynol |
| 10.2 | Ar sail argymhelliad y Pwyllgor, fe wnaeth y Bwrdd gymeradwyo:<br>• blaenoriaethau 2025-26 y Cynllun Gweithlu Strategol; a'r<br>• Polisi Urddas a Pharch. | |
| 10.3 | Nodwyd y materion eraill a amlinellwyd yn yr adroddiad gan y Bwrdd. | |
| 10.4 | Cyflwynodd Cadeirydd y Pwyllgor Cydnabyddiaeth Ariannol ac Adnoddau Dynol adroddiad blynyddol y Pwyllgor 2024-25 ac fe'i cymeradwywyd gan y Bwrdd. | |
| **11** | **Adroddiad Blynyddol y Tîm Arweinyddiaeth Gweithredol** | |
| 11.1 | Cyflwynodd y Prif Weithredwr ei adroddiad blynyddol ar weithgarwch a gyflawnwyd gan y Tîm Arweinyddiaeth Gweithredol yn ystod 2024-25. Esboniodd y byddai'r panel staff yn gweithredu tan y Pasg 2026 a bod y grŵp terfynol o staff a oedd wedi mynegi diddordeb yn cael ei gynnwys. Roedd wedi derbyn adborth ar gynnwys yr adroddiad y tu allan i'r cyfarfod y byddai'n ei ystyried wrth ddatblygu'r fersiwn nesaf o'r adroddiad. | Archwilydd Cyffredin |

**Bwrdd Swyddfa Archwilio Cymru**
**Cofnodion y cyfarfod ddydd Iau 26 Mehefin 2025**
**Cynhaliwyd yn swyddfa Caerdydd Swyddfa Archwilio Cymru a dros Teams**

| Eitem | Cofnodion | Cam Gweithredu |
|---|---|---|
| | | ol Cymru / Ysgrifennydd y Tîm Arweinyddiaeth Gweithredol |
| 11.2 | Nodwyd yr adroddiad gan y Bwrdd. | |
| **12** | **Strategaeth Gyfathrebu** | |
| 12.1 | Amlinellodd y Pennaeth Cyfathrebu egwyddorion allweddol dull o gyfathrebu a oedd canolbwyntio ar effaith yn hytrach nag allbwn ac wedi'u cynllunio i gynnig hyblygrwydd mewn amgylchedd digidol sy'n esblygu. Esboniodd bod yr egwyddorion yn cyd-fynd â'r strategaeth bum mlynedd a'r Cynllun Blynyddol a bod cynlluniau busnes sylfaenol yn rhoi'r manylion mesuradwy. | |
| 12.2 | Cymerodd y Bwrdd ran mewn trafodaethau am sicrhau effaith lwyddiannus ar gyfer gwaith yr Archwilydd Cyffredinol, sut allai cyfathrebu gyfrannu at yr effaith honno a'r metrigau i asesu a mesur yr effaith. | |
| 12.3 | Diolchodd y Bwrdd i'r Pennaeth Cyfathrebu am ei gyflwyniad a'r cyfle i gyfrannu at y drafodaeth a nododd y byddai'r camau nesaf yn cynnwys cofnodi a rhannu'r egwyddorion gyda staff. | |
| **13** | **Gorwelion Archwilio** | |
| 13.1 | Cyflwynodd y Cyfarwyddwr Archwilio a'r Rheolwr Datblygu a Chanllawiau Archwilio atgrynhoad a diweddariad ar ddatblygiadau yn ymwneud â chyflawni archwiliadau, eu heffaith ac ymateb Archwilio Cymru. Fe wnaethant amlinellu'r meysydd ar gyfer rhagddatblygiad a rhoi'r cefndir a'r rhesymeg i'r rhai lle disgwyliwyd i geisiadau am gyllid gael eu cynnwys yn y Strategaeth Amcangyfrif a fyddai'n cael ei hystyried gan y Bwrdd ym mis Gorffennaf. | |
| 13.2 | Trafododd y Bwrdd yn gryno oblygiadau'r cynigion gan groesawu'r cyflwyniad a roddodd wybodaeth werthfawr cyn y drafodaeth am y Strategaeth Amcangyfrif. | |
| 13.3 | Pwysleisiodd y Bwrdd i'r Cyfarwyddwr Archwilio bwysigrwydd ystyried yr enillion o fuddsoddiad mewn unrhyw ddatblygiad yn y dyfodol. | |
| **14** | **Adolygiad o'r flaenraglen waith** | |
| 14.1 | Trafododd y Bwrdd y flaenraglen waith y byddai Ysgrifennydd y Bwrdd yn ei diweddaru. | Ysgrifennydd y Bwrdd |
| **15** | **Unrhyw faterion eraill** | |

**Bwrdd Swyddfa Archwilio Cymru**
**Cofnodion y cyfarfod ddydd Iau 26 Mehefin 2025**
**Cynhaliwyd yn swyddfa Caerdydd Swyddfa Archwilio Cymru a dros Teams**

| Eitem | Cofnodion | Cam Gweithredu |
|---|---|---|
| 15.1 | Nododd y Cadeirydd mai hwn oedd cyfarfod Bwrdd olaf Alison Gerrard a diolchodd iddi am ei chyfraniad at Archwilio Cymru fel yr aelod annibynnol o'r Pwyllgor Archwilio a Sicrwydd Risg ac yna aelod anweithredol o'r Bwrdd dros gyfnod o tua 11 mlynedd. Rhannodd aelodau eu diolch a'u dymuniadau da ar gyfer y dyfodol. | |
| **16** | **Adolygiad o'r cyfarfod** | |
| 16.1 | Nododd y Bwrdd adborth gan y staff a oedd yn arsylwi, a wnaeth sylwadau ar:<br>• werth gweld llywodraethu Archwilio Cymru ar waith; a'r<br>• trafodaethau agored a thryloyw a oedd yn dangos y cysondeb o ran negeseuon gan y Tîm Arweinyddiaeth Gweithredol a'r Bwrdd. | |
| **17** | **Dyddiad y cyfarfod nesaf** | |
| 17.1 | Cyfarfod y Bwrdd – 30 a 31 Gorffennaf 2025<br>Cyfarfod y Bwrdd gydag Undebau Llafur – 31 Gorffennaf 2025 | |